# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Medi 2020

Amser: 09.30 - 12.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6529

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Helen Mary Jones AS (Cadeirydd dros dro)<br>John Griffiths AS<br>Mick Antoniw AS<br>Carwyn Jones AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Dafydd Elis-Thomas AS, Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth<br>Jason Thomas, Llywodraeth Cymru<br>Alan Jones, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Webb, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Manon George (Clerc)<br>Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)<br>Angharad Roche (Dirprwy Glerc)<br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd datganiad o fuddiant gan Mick Antoniw AS: mae ei fab yn weithiwr llawrydd yn y diwydiannau creadigol

## 2 Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Atebodd y Dirprwy Weinidog gwestiynau ar gyllid a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i sefydliadau ac unigolion sy'n syrthio o fewn ei bortffolio.

## 3 Papur(au) i'w nodi

Nododd yr Aelodau y papurau.

### 3.1 Gohebiaeth â Reach plc ynglŷn â'r ad-drefnu arfaethedig

### 3.2 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyllid ar gyfer y sector diwylliannol

### 3.3 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad byr ar effaith COVID-19 ar chwaraeon

### 3.4 Gohebiaeth â'r Adran Materion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

### 3.5 Llythyr gan Chwaraeon Cymru: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Gwydnwch Chwaraeon.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd yr Aelodau i'r cynnig.

## 5 Sesiwn friffio gan Lywodraeth Cymru ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8)

Gwrandawodd yr aelodau ar sesiwn friffio ar ddatblygiad y Rheoliadau, a'r ymgynghori yn eu cylch.

## 6 Ôl-drafodaeth breifat

Cytunodd yr aelodau i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda chwestiynau pellach ar gefnogaeth a chyllid i'r sefydliadau ym mhortffolio'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.

Cytunodd yr aelodau i ofyn am ddadleuon yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiadau'r Pwyllgor o ran effaith yr achosion o COVID-19 ar y celfyddydau creadigol; effaith yr achosion o COVID-19 ar amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth ac archifau a'r adroddiad ar effaith yr achosion o COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol.

Cytunodd yr aelodau i graffu ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 8) terfynol pan gânt eu gosod.